# Dadorchuddio Patagonia: Dathlu Gwyliau Yn Y Wladfa gan Menna George Y Cymro, Ionawr 27, 2001

Un o'r pethau sy'n rhaid dweud am yr Archentwyr rwy'n troi yn eu mysg yw eu bod yn gwybod sut i drefnu dathliad! Yn fuan iawn wedi i mi gyrraedd Y Wladfa ar ddiwedd Mai 2000 mi wnes i ddod i ddeall pa mor bwysig yw gwyliau undydd yma. Gŵyl Annibyniaeth Ariannin (Gorffennaf 9fed), Gŵyl y Glaniad (Gorffennaf 28ain), a Gŵyl San Martin (Awst 21) i enwi dim ond y cyntaf o'r gwyliau undydd yr wyf wedi cael profiad ohonynt. Wrth gwrs, y mwyaf pwysig a'r mwyaf cyffrous i mi, fel Cymraes, oedd Gŵyl Y Glaniad ar Orffennaf yr 28ain.

Rhaid dweud hefyd mai (yn fy marn i) dyma'r ŵyl a ddathlwyd yn y modd mwyaf egnïol yn y cylchoedd rwy'n troi ynddynt. Gŵyl a ddathlwyd ar hyd a lled talaith Chubut (a lle bynnag arall hefyd roedd gan bobol ddiddordeb mewn coffháu'r gamp aruthrol o ymfudo a chreu gwladfa Gymreig yma yn Yr Ariannin nôl ym 1865). Gwelwyd dathlu gan bobl ym mhob man ac mewn llawer o wahanol ffyrdd.

Ym Madryn (Porth Madryn – man y glanio) gwelwyd ail-gread o'r digwyddiad hanesyddol gydag ail-gread o'r Mimosa yn hwylio mewn i'r bae gyda phobl ar ei bwrdd, ac yn cael eu creosawu gan rai o'r Indiaid brodorol.

Yna, dadorchuddiwyd cofgolofn drawiadol o farmor coch-frown gydag enwau pob un o'r fintai gwreiddiol wedi eu cerfio arni uwchlaw'r ogofâu lle cysgododd teithwyr Y Mimosa yn ôl rhai. Wedyn, yng ngwir draddodiad Cymru a Chymry Ariannin, cafwyd te i ddathlu - 'Te Gŵyl y Glaniad'.

Mi es i i Ganolfan Dewi Sant, Trelew i 'Acto' Trelew i ddechrau fy nathliadau. Dyma oedd brofiad anhygoel! Gweld neuadd fawr yn orlawn o gannoedd o bobl o bob tras dan haul yn cyd-ymgynnull i goffháu camp y Cymry dewr cyntaf hynny a ddaeth i boblogi'r rhan yma o'r byd 135 o flynyddoedd yn ôl! Dyna lle'r oeddwn yn eistedd ymysg y cannoedd o bobl yn edrych ar y ddwy faner – un Yr Ariannin ac un Cymru – yn cael eu dal yn falch ac yn uchel gan bobl ifanc lleol, tra chynhaliwyd y cyfarfod coffa. Cafwyd yr hanes am y cyflyriad dros yr ymfudo o Gymru, a hanes y glanio a'r ymgartrefu a ddilynodd hynny, mewn Castellano graenus, nerthol a oedd yn ddigon i wneud i mi, gyda chyn lleied o Gastellano ag oedd gen i ar y pryd, i blygu fy mhen mewn parch at y bobl cryf a dewr a ddaethant yma i ddilyn eu greddf a'u calonnau a'u dymuniad i gael tegwch ac hawliau bywyd dynol sylfaenol.

Cafwyd eitemau i adlewyrchu'r briodas sydd yn y gymuned rhwng y ddwy iaith a'r ddau ddiwylliant … canu gwerin, dawnsio a barddoniaeth yn y ddwy iaith, er gyda mwy yng Nghastellano nag yng Nghymraeg, gan mai dyna yw'r sefyllfa ieithyddol yma. Roedd yn fraint cael bod yn rhan o'r dathliad swyddogol yma.

Os mai ffurfiol iawn oedd y rhan yma o'r dathlu, symudais ymlaen i rywbeth dipyn yn fwy ysgafn ei naws. Sef i 'De Gŵyl Y Glaniad' yn Hen Gapel Bethel, Gaiman. Dyma

oedd brofiad byth-gofiadwy arall. Dychmygwch gorfod aros mewn ciw i gael mynediad i'r adeilad i fwyta te!!



Roedd y lle dan ei sang o bobol o bob tras yn bwyta'r te godidog a baratowyd gan ddisgyblion Coleg Camwy. 'Dyw hi ddim yn swnio'n beth mawr iawn – mynd i gael te mewn capel ond credwch fi, mae mynd i 'de' yn Y Wladfa yn brofiad arbennig! Am y tâl mynediad cewch FWY na llond eich bol o deisennau cyfoethog, amrywiol sydd yn gynnyrch cartref pob un, yr un fath a'r bara, a'r ymenyn a'r amrywiol jamiau. Wedyn, i rywun fel fi sy'n cael ei galw'n'debot' gan ei ffrindiau, mae'r te sy'n llifo'n rhydd a rhwydd yn nefolaidd i dorri syched wrth fwyta'r holl ddanteithion. Bendigedig.

Wrth i bawb fwyta, wrth gwrs roedd yna lawer o drafod a thynnu coes. Ar y bwrdd lle'r oeddwn i'n eistedd roedd yna gymysgwch o bobl o bob oed a phob galwedigaeth, ac roedd y sgwrsio'n gwbwl ddwy-ieithog. Y Gymraeg a'r Castellano'n cyd-fodoli'n hapus, braf gyda phawb yn rhoi parch i'r ddwy iaith.

Pan roeddem ar orffen bwyta'n te torrwyd y cyflenwad trydan, ac fe'n gadawyd mewn tywyllwch. Ond doedd dim rhaid i ni boeni'n ormodol gan i dri o ddynion cryfion, deallus y Gaiman ddod at ei gilydd i greu pwyllgor wrth droed y polyn trydan i asesu'r sefyllfa! Rhaid i mi gyfaddef i hwn godi gwên gan gallwn ddychmygu 'nhad neu 'mrawd yn gwneud yn union yr un peth yn eu capeli nhw adref yng Nghymru! Mae rhai pethau'r un peth ar draws y byd!

I orffen y dydd, es ymlaen i ddathlu mewn ffordd hollol wahanol eto - gyda tho ifanc y Gaiman yn 'Y Davarn Las' lle'r oedd y rheolwyr wedi bod yn fwy na pharod i ganiatáu i Rhys a mi gynnal disgo Cymraeg! Dychmygwch yn wir … fi yn Ne America ac yn cael cynnal gweithgaredd i ddathlu achlysur Cymreig pwysig YN GYMRAEG. Mewn sawl sefydliad yng Nghymru mae hynny'n digwydd d'wedwch?

Cafwyd adwaith ffafriol iawn i'r caneuon a chwareuwyd, gyda phobl heb unrhyw gysylltiadau Cymreig yn mynegi diddordeb a mwynhâd yn y gerddoriaeth yn ogystal â phobl o dras Gymraeg.

Ddyweda i ddim am faint o'r gloch ddaeth fy nathlu i ben, ond roedd yn ddiweddglo bywiog i ddydd a welodd ddathlu digwyddiad Cymreig hanesyddol pwysig mewn tair ffordd hollol wahanol. Roedd y bobl bûm yn eu mysg yn y neuadd yn Nhrelew, yn y capel yn Gaiman ac yn y dafarn yn Gaiman i gyd yn dathlu dyfodiad y Cymry i'r Ariannin, ac roedd yn braf bod yng nghwmni gymaint o bobl oedd eisiau cofio'r achlysur. Rhaid hefyd dweud i mi gael syndod am bwysigrwydd y digwyddiad yn y gymuned gyfan. Yn Nhrelew – dinas o dros 90,000 o bobl ac yma yn Gaiman roedd mwyafrif y siopau ar gau am hanner dydd - o barch at yr achlysur! Dyw hyn ddim yn digwydd yng Nghymru i ddathlu dydd ein nawddsant hyd yn oed!

Ydyn, mae'r Archentwyr yn gwybod sut i ddathlu. Diolch byth fod yna seibiant wedi bod yn ddiweddar. Roedd y jîns wedi mynd yn rhy dynn, a minnau angen tipyn yn fwy o gwsg! (Ond, rwy'n falch iawn y byddaf dal yma flwyddyn yma ar gyfer Gŵyl y Glaniad arall!!